

PWYLLGOR ARCHWILIO

Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd T.M. Higgins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

K.V. Broom, K.Davies, T.M. Higgins, G.H. John, A.G. Morgan, B. Thomas, D.E. Williams and J. James

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

J. Jones, Pennaeth Adfywio
H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael
Thomas, Head of Education Services and Inclusion
C. Powell, Prif Archwilydd
M Mason, Museum Development Manager
S. Nolan, Cyfrifydd Grŵp
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 yb - 12.30 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. Y DIWEDDARAF YNGHYLCH AR CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu'r Cynllun Archwilio Mewnol.

Roedd rhan A o'r adroddiad yn cynnwys adroddiad cynnydd manwl ar Gynllun Archwilio 2019/20 ynghyd ag Argymhellion Matrics Sgorio. Roedd Rhan B yn grynoded o adroddiadau terfynol wedi'u cwblhau ar gyfer 2019/20 ynghylch y prif systemau ariannol (Ebrill 2018 hyd y heddiw) ac roedd Rhan C yn cynnwys adolygiadau a oedd wedi'u cwblhau er mis Ebrill 2018 lle'r oedd gan y systemau un neu ragor o Wendidau Rheoli Sylfaenol neu lle'r oedd adolygiadau yr oedd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol wedi cytuno y dylid eu rhoi gerbron y Pwyllgor. Roedd yr adolygiadau a gwblhawyd yn ymwneud â Rheoli Eiddo a Diffygion a Gwargedion Ysgolion.

Cadarnhaodd y Pennaeth Adfywio y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad archwilio yn ymwneud â Rheoli Eiddo. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant amlinellid o'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad archwilio yn ymwneud â Diffygion a Gwargedion Ysgolion. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd â Phenathiaid, cyfarfodydd ag ysgolion unigol, sesiynau briffio ag ymgynghorydd her, cyllidebau ysgolion fel eitem sefydlog ar agendâu'r Tîm Rheoli Adrannol ac adborth rheolaidd i'r Prif Weithredwr. Cydnabuwyd bod angen cefnogi Penathiaid a darparu hyfforddiant ariannol, yn enwedig mewn

ysgolion llai ac o dan amgylchiadau lle mae'n fwyfwy anodd i ddenu ymgeiswyr am swyddi Penaethiaid.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

3.1 dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Archwilio Mewnol 2019/20;

3.2 fod diweddariadau yn cael eu darparu mewn 6 mis ynghylch y cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n ymwneud ag adolygiadau archwilio Rheoli Eiddo a Diffygion a Gwargedion Ysgolion.

4. BLAENRHAGLEN GWAITH

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Flaenraglen Waith a oedd yn rhoi manylion am yr eitemau disgwyliedig ar agenda cylch cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio 2019/20.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y Flaenraglen Waith.

5. COFRESTR RISG CORFFORAETHOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a oedd yn cael ei chadw er mwyn gwerthuso'r risgiau strategol allweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.

Cytunodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad mewnol a gynhaliwyd yn ymwneud â phrosesau gorfodi.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

6. ARCHWILIAD MEWNOL GRANT RHAGLEN CEFNOGI POBL 2019/20

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Archwiliad Mewnol 2019/20 o'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl. Diben y grant oedd darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i helpu pobl agored i niwed i fyw mor annibynnol ag y bo modd. Daethpwyd i'r casgliad yn yr adolygiad, a gynhaliwyd i sicrhau y cydymffurfiwyd yn llawn â thelerau ac amodau'r grant yn ymwneud â'r Grant Cefnogi Pobl, fod cynnydd parhaus yn cael ei wneud mewn perthynas â rheoli, gweinyddu a monitro trefniadau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

7. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNLLUN GWEITHREDU AMGUEDDFEYDD SIR GAERFYRDDIN

Gan gyfeirio at gofnod 9.1 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2019, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gweithredu Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin a oedd yn adolygu cynnydd yn erbyn y pedwar argymhelliad a wnaed gan yr Adain Archwilio Mewnol yn adolygiad 2016/17, a gofnodwyd fel 26 cam gyda dangosyddion llwyddiant mesuradwy. Mae adolygiadau Archwilio Mewnol dilynol wedi cydnabod ymdrechion a'r cynnydd cadarnhaol a wnaed gan y gwasanaeth i oresgyn diffygion drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.

Dywedwyd bod y meysydd rheoli casgliadau yr oedd angen gwneud cynnydd pellach yn eu cylch yn rhannu nodwedd gyffredin o ran bod yn gyd-ddibynnol â'r heriau hirdymor yr oedd y gwasanaeth amgueddfeydd yn ei chael yn anodd ymdrin â hwy oherwydd cyfyngiadau o ran y staff a'r cyfleusterau presennol. Byddai cynnydd yn parhau i gael ei wneud gyda'r adnoddau sydd ar gael wrth barhau i archwilio ateb mwy boddhaol i wella safonau rheoli asedau treftadaeth yr awdurdod ar sail datblygu yn y dyfodol.

Cytunodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol i ddsbarthu copi o'r archwiliad diweddaraf o'r gwasanaeth amgueddfeydd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

7.1 dderbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd;

7.2 cyflwyno adroddiad cynnydd pellach i'r Pwyllgor mewn 12 mis.

8. CYNNYDD O RAN ARGYMHELLION YR ADRODDIAD RHEOLEIDDIO

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran argymhellion yr adroddiad rheoleiddiol. Byddai'r argymhellion yn cael eu monitro a'u cofnodi bob chwarter ar gyfer y Pwyllgor Craffu.

Cytunodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol i ddarparu manylion am y sefyllfa bresennol o ran yr adolygiadau o strwythur y pwyllgor trosolwg a chraffu a sut mae Llywodraeth Leol yn defnyddio data.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

9. DOGFENNAU A LUNIWYD GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU:-

9.1. LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL CYNGOR SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Llythyr Archwiliad Blynyddol 2018/19 a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd y Llythyr Archwiliad Blynyddol yn ymdrin â'r gwaith a oedd wedi'i wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r llythyr diwethaf ac yn crynhoi'r negeseuon allweddol yn sgil y gwaith a wnaed i gyflawni cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol a'r hyn yr oedd yn ystyried y dylid eu dwyn i sylw'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Llythyr Archwiliad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

9.2. CYNGOR SIR GAERFYRDDIN MEMO CYFRIFON TERFYNOL

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Memo Cyfrifon Terfynol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin yn 2018/19 a oedd yn rhoi crynodeb o'r negeseuon allweddol a godai o'r gwaith cyfrifon terfynol a wnaed.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

9.3. ADRODDIADAU LLEOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad lleol Swyddfa Archwilio Cymru ar y canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Lleol Swyddfa Archwilio Cymru.

9.4. ADRODDIADAU CENEDLAETHOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiadau Cenedlaethol canlynol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru:

- Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion;
- Cronfa Gofal Integredig - Archwiliad o Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru;
- Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiadau Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru a nodwyd uchod.

10. COFNODION GRWPIAU PERTHNSAOL I'R PWYLLGOR ARCHWYLIO

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y cofnodion canlynol:-

- Cofnodion y Grŵp Llywio Rheoli Risg – 8 Tachwedd 2019
- Cofnodion y Panel Grantiau –1 Hydref 2019.

11. COFNODION - 13 MEDI, 2019

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2019 gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD